

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddClimate@senedd.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

10 Tachwedd 2022

Dear Llyr

Diolch am eich llythyr ar 6 Hydref 2022 ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ddatgarboneiddio cartrefi preifat yng Nghymru.

Yn eich llythyr, rydych yn gofyn sut mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth gynhwysfawr a chynllun cyflawni ar gyfer datgarboneiddio yn mynd yn ei flaen. Cyfeirir at y gwaith hwn yn yr ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol "Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd".

Er bod ein bwriad strategol wedi'i fynegi yn ein Cyllideb Carbon 2 (2021-25) Sero Net Cymru sy'n nodi ein gweledigaeth, ein huchelgais a'n polisiau a chynigion (Polisiau 43-50 a Chynigion 5-8), rydyn ni'n cydnabod bod angen mwy o fanylder a map ffordd ar gyfer ei rhoi ar waith.

Er ein bod am ddatblygu cynllun cyflawni cynhwysfawr sy'n ymgorffori gwaith mewn meysydd heblaw am dai cymdeithasol, rydyn ni wedi ymrwmo i sicrhau ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i ddatgarboneiddio. Cynllun sy'n seiliedig ar ddysgu gwersi'r ORP a chynlluniau eraill fel yr IHP a'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Rydyn ni'n glir, o ran ôl-osod, does dim atebion syml ac nid yw'r un ateb yn addas i bob rhan o'r stoc dai yng Nghymru. O'r herwydd, rydyn ni wedi ymrwmo i ddod i ddeall y problemau ac i gydweithio â phartneriaid ar draws y sector i sicrhau bod ein cynllun yn seiliedig ar y dystiolaeth, yn uchelgeisiol ac yn ymarferol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod gennym gynllun ystyrion sy'n ein tywys i'r dyfodol, rydyn ni wrthi'n casglu dystiolaeth am gartrefi sy'n cael eu hól-osod. Trwy seilio'n gwaith ar dystiolaeth fel hyn, gallwn fod yn siŵr bod ein buddsoddiadau yn y dyfodol yn dibynnu ar atebion y gallwn fod yn hyderus sy'n gweithio mewn amrywiaeth o gartrefi a daliadaethau gwahanol.

Mae'r dystiolaeth yn hanfodol hefyd i sicrhau bod trigolion Cymru'n teimlo'n ddiogel a sicr ac yn gallu defnyddio ynni yn eu cartrefi mewn ffordd sy'n ateb eu gofyn, wrth i'w cartrefi gael eu datgarboneiddio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu ar y gwaith hwn ac yn ystyried sut orau i ddatblygu map ffordd ar gyfer datgarboneiddio tai preswyl, gan gydbwyso'r angen hwn â'r ystod o ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig â rhaglenni fel y Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio ac ehangu i'r PRS trwy alinio'r ORP â'r Cynllun Lesio Cartrefi.

Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'n Grŵp Gweithredu ar Ddatgarboneiddio (DIG) i ffurfio grŵp arall o randdeiliaid i drafod blaenoriaethau'r map ffordd ar gyfer rhan gyntaf 2023.

Unwaith y bydd hwnnw wedi'i ddatblygu a'r gwaith wedi'i ddechrau, bydd ein partneriaid a'n rhanddeiliaid wrth reswm yn parhau'n rhan o'r broses, a chyn cyhoeddi unrhyw fap ffordd, byddwn yn ymgynghori ar y cynigion a ddatblygir.

Byddaf yn rhannu amserlen a'r drefn gyhoeddi y byddwn yn gobeithio ei dilyn gyda'r Pwyllgor ar ôl penderfynu arnyn nhw.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change